# Hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i nodi eu dewisiadau a’u hanghenion mewn perthynas â dysgu a datblygu neu gyflogaeth, a’u cefnogi i gael gafael ar gyfleoedd. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi unigolion i baratoi, ymgymryd â chyfleoedd, a’u gwerthuso.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth gael gafael ar gyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am gyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi canlyniadau dysgu a datblygu neu gyflogaeth sy’n cwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion
4. cefnogi unigolion i adolygu’r opsiynau sydd ar gael a dewis pa un sy'n cwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion
5. adolygu neu gwblhau asesiadau risg a chefnogi cymryd risgiau cadarnhaol ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
6. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i gwrdd â’r bobl sy'n ymwneud â'r cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth, a gofyn cwestiynau
7. grymuso unigolion i gael gafael ar geisiadau a’u cwblhau ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
8. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i baratoi ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth, a chynllunio ar eu cyfer, yn unol â’u dewisiadau a’u hanghenion
9. cefnogi unigolion i roi adborth ar sut yr oedd cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth wedi cwrdd â’r canlyniadau a nodwyd
10. rhoi eich adborth ar sut yr oedd cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth wedi cwrdd â’r canlyniadau a nodwyd
11. cefnogi unigolion i nodi a mynd i’r afael â’r newidiadau sydd eu hangen i’r cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
12. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
13. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gwahanol fathau o gyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth a'r effaith gadarnhaol y gallant ei chael ar unigolion
2. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion â chyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
3. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a chyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
4. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddewis, cynllunio a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
5. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol drwy gyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
6. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddewis a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
7. y mathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth, a sut i gael gafael arnynt
8. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion
9. rôl asesiadau risg a chymryd risgiau cadarnhaol mewn cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
10. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i roi adborth ar gyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion
12. newidiadau i ddewisiadau ac anghenion sy'n effeithio ar fynediad a chyfranogiad mewn cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth, a sut mae cefnogi'r rhain
13. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
14. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth
15. damcaniaethau sy'n berthnasol i hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau

perthnasol ar gyfer hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion
17. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion
18. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion
19. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion
20. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion, a sut i fynd i’r afael â hyn
21. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hybu cyfleoedd dysgu a datblygu neu gyflogaeth ar gyfer unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD317 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | cyfleoedd dysgu, datblygu, cyflogaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |